Gwasanaeth Cymorth i Blant
a Phobl Ifanc b/Byddar
Gwasanaethau Cymorth Cyfathrebu a Synhwyraidd

Y Ganolfan Ddinesig
Heol Glantorfaen
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB
Ffôn: 01633 648888
E-bost: sencom@torfaen.gov.uk

Support Service for d/Deaf
Children & Young People
Sensory & Communication Support Service

Civic Centre
Glantorvaen Road
Pontypool
Torfaen
NP4 6YB
Telephone: 01633 648888
Email: sencom@torfaen.gov.uk

# Canllawiau i Deuluoedd a Staff Ysgolion: Lleihau'r Risg o Ergydion i'r Pen i Blentyn sydd â Llwybr Dŵr Festibwlar Chwyddedig (EVA)




Bwriad y canllawiau hyn yw cefnogi dull cyson, synhwyrol, gartref ac yn yr ysgol, i blentyn sydd â Llwybr Dŵr Festibwlar Chwyddedig (EVA). Mae EVA yn wahaniaeth tu mewn i'r glust sy'n gysylltiedig â byddardod ac, i rai plant, anawsterau gyda chydbwysedd. Gall rhai plant ag EVA brofi newidiadau yn eu clyw ar ôl mân anaf i'r pen, newidiadau sydyn i bwysedd, neu ymdrech gorfforol, felly mae'n bwysig lleihau ergydion i'r pen y gellir eu hosgoi.

## Neges Allweddol

Y nod yw peidio ag atal y plentyn rhag ymuno ym mywyd arferol yr ysgol a'r teulu, ond lleihau risgiau diangen o daro'r pen, yn enwedig wrth chwarae, wrth gymryd rhan mewn chwaraeon, wrth symud mewn lleoedd gorlawn o amgylch yr ysgol, ac mewn gweithgareddau lle mae cwympo neu wrthdrawiadau yn fwy tebygol.

## Pam mae angen gofal ychwanegol

• Mae EVA yn effeithio ar strwythurau tu mewn i'r glust sy'n ymwneud â chlyw a chydbwysedd.

**THIS DOCUMENT IS AVAILABLE IN LARGER PRINT AND BRAILLE UPON REQUEST**
We welcome correspondence in Welsh and English.
Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and will not lead to delay.
*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.*
*Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd yn arwain at oedi.*

www.torfaen.gov.uk

For information on how we handle your personal data please refer to our Privacy Notice at Torfaen.gov.uk
I gael gwybodaeth am sut rydym yn trin eich data personol, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd ar Torfaen.gov.uk

• Gall lefelau clyw ymhlith plant ag EVA amrywio neu newid gydag amser.
• I rai plant, ar ôl ergyd i'r pen neu ysgytwad sydyn, gall fod newid amlwg i'r clyw, tinitws, pendro, diffyg cydbwysedd, neu deimlo bod pethau'n troelli.
• Mae gweithredu ar unwaith yn bwysig os oes unrhyw newidiadau ar ôl ergyd, hyd yn oed os yw'r ergyd yn ymddangos yn fach.

## Camau ymarferol ar gyfer y cartref a'r ysgol

• Sicrhewch fod pob oedolyn perthnasol yn gwybod bod gan y plentyn EVA ac y dylai osgoi ergydion i'r pen lle bo hynny'n bosibl.
• Cynlluniwch symudiadau diogel o amgylch ardaloedd prysur, fel coridorau, ystafelloedd cotiau, neuaddau bwyta, mynedfeydd i ardaloedd chwarae, a symud rhwng gwersi.
• Anogwch blant i fynd i'w llinellau'n bwyllog, bylchau diogel rhwng plant, a symud dan oruchwyliaeth ar adegau prysur.
• Ceisiwch leihau chwarae caled, gêmau gwthio, reslo, neu weithgareddau lle gallai pennau plant wrthdaro.
• Defnyddiwch gyfarpar diogelu priodol ar gyfer gweithgareddau fel beicio neu sgwteri, gan ddilyn yr un disgwyliadau diogelwch ag ar gyfer unrhyw blentyn.
• Sicrhewch fod y plentyn yn gallu dweud wrth oedolyn dibynadwy ar unwaith os ydyn nhw'n cael ergyd i'r pen neu'n sylwi ar unrhyw newid yn eu clyw neu gydbwysedd neu bendro.

## Gweithgareddau Addysg Gorfforol, Chwaraeon ac ar y Buarth

Dylid cefnogi'r plentyn i gymryd rhan yn ddiogel mewn gweithgarwch corfforol lle bynnag y bo modd. Dylid ystyried gweithgareddau trwy asesiad risg syml, gan ystyried oedran y plentyn, cydsymudiad, cydbwysedd, hyder, clyw, a'r tebygolrwydd o ergyd i'r pen.
• Gall gweithgareddau risg is gynnwys cerdded, gêmau rhedeg gyda lle clir, dawnsio, nofio dan oruchwyliaeth, cylchedau ffitrwydd, gweithgareddau sgiliau di-gyswllt, a gêmau pêl wedi'u haddasu.
• Mae gweithgareddau sy'n gofyn am ofal ychwanegol yn cynnwys pêl-droed, rygbi, hoci, trampolîn, dringo, gymnasteg, *dodgeball*, crefftau ymladd, neu unrhyw gêm lle mae plant yn fwy tebygol o wrthdaro, cwympo neu gael pêl i'r pen.
• Dylid trafod chwaraeon cyswllt neu weithgareddau effaith uchel gyda'r teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol cyn cymryd rhan.
• Dylai staff addasu gweithgareddau lle bo angen, er enghraifft trwy ddefnyddio peli meddalach, lleihau cyflymder, cynyddu bylchau, osgoi taro peli gyda'r pen, neu gynnig rôl neu weithgaredd arall yn lle.

## Os yw'r plentyn yn taro'i ben

• Dilynwch weithdrefn anaf i'r pen arferol yr ysgol neu'r lleoliad ar unwaith.
• Rhowch wybod i rieni neu ofalwyr yr un dydd, hyd yn oed os yw'r ergyd yn ymddangos yn fach.
• Holwch y plentyn, gan ddefnyddio iaith sy'n briodol i'w hoedran, a yw eu clyw yn swnio'n wahanol, yn llai eglur, yn dawelach, neu'n anarferol, neu a oes unrhyw sŵn canu yn eu clustiau.
• Gwiriwch am bendro, diffyg cydbwysedd, cyfog, cur pen, aflonyddwch i'r golwg, blinder anarferol, neu drafferth canolbwyntio.

**THIS DOCUMENT IS AVAILABLE IN LARGER PRINT AND BRAILLE UPON REQUEST**
We welcome correspondence in Welsh and English.
Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and will not lead to delay.
*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.*
*Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd yn arwain at oedi.*

www.torfaen.gov.uk

For information on how we handle your personal data please refer to our Privacy Notice at Torfaen.gov.uk
I gael gwybodaeth am sut rydym yn trin eich data personol, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd ar Torfaen.gov.uk

• Os oes unrhyw newid i'r clyw neu’r cydbwysedd, pendro, neu symptomau eraill sy'n peri pryder, dylai rhieni neu ofalwyr ofyn am gyngor meddygol ar unwaith trwy wasanaeth awdioleg y plentyn, Clustiau, Trwyn a Gwddf, Y Meddyg Teulu, gwasanaeth 111 y GIG, neu wasanaethau brys fel y bo'n briodol.
• Cofnodwch beth ddigwyddodd, gan gynnwys dyddiad, amser, lleoliad, gweithgaredd, symptomau yr adroddwyd amdanynt, camau a gymerwyd, a phwy gafodd eu hysbysu.

## Cyfathrebu ac adolygu

• Cytunwch ar aelod penodol o staff a fydd yn cydlynu'r wybodaeth ac yn sicrhau bod staff cyflenwi yn ymwybodol o'r rhagofalon allweddol.
• Cofiwch gynnwys y canllawiau yng nghynllun cymorth unigol y plentyn, eu cynllun gofal iechyd, eu hasesiad risg, neu broffil un dudalen lle bo hynny'n briodol.
• Adolygwch y canllawiau ar ôl unrhyw ergyd i'r pen, newid i'r clyw, newid i gydsymudiad neu gyngor meddygol newydd, neu ar ôl symud i ddosbarth neu ysgol newydd.
• Dylai rhieni neu ofalwyr rannu unrhyw gyngor wedi'i ddiweddaru gan awdioleg, Clust, Trwyn a Gwddf, gwasanaethau festibwlar, neu weithwyr meddygol proffesiynol, gyda staff yr ysgol.

**THIS DOCUMENT IS AVAILABLE IN LARGER PRINT AND BRAILLE UPON REQUEST**
We welcome correspondence in Welsh and English.
Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and will not lead to delay.
*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.*
*Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd yn arwain at oedi.*

**www.torfaen.gov.uk**

For information on how we handle your personal data please refer to our Privacy Notice at Torfaen.gov.uk
I gael gwybodaeth am sut rydym yn trin eich data personol, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd ar Torfaen.gov.uk